**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 2 Mehefin 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| H M Morris | V M Evans | J A Hale |
| C A Holley | P R Hood-Williams | Y V Jardine |
| J W Jones | E T Kirchner | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mark Child | Aelod y Cabinet – Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac Iechyd Cymunedol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lucy Friday | Prif Swyddog - Trawsnewid (Gwasanaethau i Oedolion) |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): G J Tanner
Swyddog(ion): Helen St John

---

## 1 Cadarnhau Cynullydd

Cadarnhawyd mai Susan Jones fyddai Cynullydd Panel y Gwasanaethau i Oedolion.

## 2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd Chris Holley gysylltiad personol.

## 3 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 4 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 5 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 6 Diweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau i Oedolion

Roedd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion a Lucy Friday, Prif Swyddog Trawsnewid, yn bresennol er mwyn cyflwyno'r eitem hon a nodwyd nad oedd hon yn flwyddyn arferol ac felly mae'r rhaglen yn ystyried byw gyda COVID, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ac adferiad ond mae hefyd yn ddyheadol.

Pwyntiau i'w trafod:

- Gofynnodd y panel pa ddatblygiadau/newidiadau/ychwanegiadau a wnaed mewn perthynas â thechnoleg gynorthwyol, pa bosibiliadau eraill sy'n dod i'r amlwg, a faint o eitemau sydd ar waith ar hyn o bryd. Atebodd swyddogion fod cynlluniau technoleg gynorthwyol yn cael eu datblygu o hyd ac y byddai sesiwn friffio'n cael ei chyflwyno i'r panel yn hwyrach eleni. Buddsoddwyd yn sylweddol ynddo hyd yn hyn.
- Gofynnodd y panel ynghylch arbedion cyllidebol ar y cyd. Fe'u hysbyswyd eu bod wedi'u nodi a'u hystyried yn y gyllideb eleni. Cytunodd swyddogion y byddent yn darparu rhagor o wybodaeth.
- Holodd y panel ynghylch cyfran y taliad uniongyrchol sy'n dod yn uniongyrchol i'r awdurdod. Nodwyd y defnyddir taliadau uniongyrchol gan unigolion i dalu am ddarpariaeth ddydd o'r sector preifat, neu i gyflogi rhywun yn annibynnol ar gyfer darpariaeth, neu i ddefnyddio'r trydydd sector ar gyfer darpariaeth. Os bydd unrhyw un am ddefnyddio darpariaeth fewnol yr awdurdod, ni fydd angen iddo ddefnyddio taliadau uniongyrchol oherwydd gall gael mynediad at y gwasanaeth drwy'r awdurdod.
- Gofynnodd y panel am ofal cartref mewn ardaloedd gwledig, y problemau sy'n gysylltiedig â hyn a datblygiad mentrau cymdeithasol. Cadarnhaodd swyddogion fod ailgomisiynu gofal cartref yn 2019/20 wedi gwella ehangiad a chwmpas mewn ardaloedd gwledig. Gwellodd y cwmpas mewn ardaloedd gwledig trwy ddefnyddio gwasanaethau ailalluogi mewnol a'r gwasanaeth gofal tymor hir mewnol i fynd i'r afael â'r mater. Penodwyd nifer o ddarparwyr newydd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud ac mae hynny wedi gwella cwmpas, hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal â hyn, gwneir ymdrechion i geisio cefnogi datblygiad modelau menter gymdeithasol addas neu ddulliau eraill.
- Gofynnodd y panel hefyd a fyddai modd cynnal asesiadau amlasiantaeth gweithredol i bobl sy'n byw gartref yn ogystal â rhyddhau cleifion o'r ysbyty i'r cartref a allai atal y defnydd o gyfleusterau derbyniadau brys mewn ysbytai yn y lle cyntaf a chyflwyno'r gwasanaethau y byddai preswylwyr fel arfer yn eu derbyn ar ôl cyfnod o ofal mewn ysbyty. Sicrhaodd y swyddogion fod llawer o waith y gyfarwyddiaeth yn cynnwys ffocws tîm amlddisgyblaeth yn y gymuned, er enghraifft, drws blaen y Gwasanaethau Cymdeithasol ac un pwynt mynediad iechyd meddwl.

- Gofynnodd y panel a oes unrhyw ddata ar gael ynghylch nifer yr atgyfeiriadau a ataliwyd trwy ofal rhagweledol. Fe'i hysbyswyd bod y cwestiwn hwn yn anodd i'w ateb oherwydd nad yw unrhyw waith rhagweledol yn cael ei gofnodi yn system ffurfiol y gwasanaeth. Fodd bynnag, ceir data ar gyfeiriadau.
- Gofynnodd y panel ynghylch y broses gwynion, gan ofyn a roddwyd unrhyw fewnbwn annibynnol ynddo. Gofynnodd y panel a allai weld adroddiad sy'n dangos crynhoad diweddar o nifer y cwynion a dderbyniwyd, pa fathau o gwynion a dderbyniwyd a'r camau gweithredu a gymerwyd. Cytunodd swyddogion y byddent yn rhannu gwybodaeth a dolenni'n dilyn y cyfarfod.

Camau Gweithredu:

- Bydd y panel yn derbyn gwybodaeth ynghylch arbedion cyllidebol ar y cyd.
- Caiff gwybodaeth a dolenni ynghylch y broses gwynion eu rhannu â'r panel.

## 7 Camau gweithredu o adroddiad SAC - Drws ffrynt i Ofal Cymdeithasol i Oedolion - Argymhelliad: Effaith Gwasanaethau Ataliol

Cyflwynwyd yr eitem hon gan Lucy Friday, Prif Swyddog Trawsnewid, a datganodd fod yr archwiliad wedi'i gyflwyno ar sail Cymru gyfan. Nid oedd Abertawe'n un o'r awdurdodau yr ymwelwyd â nhw, ond darparodd ychydig o wybodaeth. Mae'r argymhellion yn gyffredinol ac yn berthnasol i Gymru gyfan. Bydd prif argymhellion yr adolygiad archwilio'n rhan o'r Rhaglen Trawsnewid.

Pwyntiau i'w trafod:

- Hysbyswyd y panel fod y gwaith o amgylch yr holl feysydd a amlygwyd ym mis Mawrth 2020 wedi mynd rhagddo’n sylweddol neu wedi'i gwblhau. Yn ogystal, ehangwyd datblygiad pellach y gwasanaethau ataliol a mynediad i 'ddrws blaen' y gwasanaeth mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae hyn wedi cyflwyno rhagor o gyfleoedd ar gyfer newid a gwella, yn enwedig mewn perthynas â gwybodaeth, mynediad a chefnogaeth ar gyfer gofalwyr y gwasanaeth.
- Gofynnodd y panel pa gysylltiad sydd gan yr awdurdod â'r trydydd sector/CGGA, ac a yw'n gytundebol ac wedi'i ariannu. Fe'i hysbyswyd bod rhai ffyrdd o ariannu'r CGGA, gan gynnwys nifer o grantiau allanol ac mae'r awdurdod yn rhoi cyllid craidd i'r CGGA mewn perthynas â'r gwasanaeth gwirfoddoli ac ar gyfer y gwaith craidd y mae CGGA yn ei wneud o dan y cytundeb rhwng y llywodraeth a'r sector gwirfoddol. Mae'r gan yr awdurdod brosiectau eraill gyda nhw hefyd.
- Hoffai'r panel wybod sut mae'r gwasanaeth eiriolaeth yn gweithredu, sut mae'r gwasanaeth proffesiynol hwn yn gweithio a derbyn adborth ar ei berfformiad. Cadarnhaodd y swyddogion fod y gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ar gael i unrhyw berson neu ofalwr lle mae rhywbeth yn eu rhwystro rhag derbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arno. Cytunodd swyddogion i ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn i'r panel.

Camau Gweithredu:

- Darperir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth eiriolaeth i'r panel.

8 **Adoygiad Blynyddol y Cyfarwyddwr o Daliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol) 2020-21**

Roedd David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol i roi diweddariad i'r panel.

Pwyntiau i'w trafod:

- Argymhellodd y Cyfarwyddwr i'r Cabinet na ddylid cyflwyno ffïoedd newydd, ond dylid cyflwyno cynnydd o 1.75% mewn chwyddiant i'r ffïoedd presennol (ffigur ymgynghorol o Lywodraeth Cymru). Derbyniwyd argymhellion y Cyfarwyddwr gan y Cabinet.
- Cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet, edrychodd y gwasanaeth ar ddysgu o weld achos prawf ac maent wedi cynnal adolygiad i sicrhau nad yw cynllun ffïoedd yr awdurdod yn wahaniaethol. Mae swyddogion yn hyderus bod yr awdurdod yn cydymffurfio'n llawn.
- Mae wedi amlygu y gallai'r gwasanaeth wneud rhagor o waith o ran tryloywder, yn enwedig ynghylch sut cynhelir asesiadau ariannol. Gofynnodd y panel a allai weld yr wybodaeth mewn perthynas â hyn. Cytunodd y Cyfarwyddwr y byddai'n rhoi diweddariad iddo pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Bydd yn rhannu'r hyn y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.

Camau Gweithredu:

- Diweddariad pellach ar waith o ran tryloywder ar hyn a gaiff ei gyhoeddi i'r panel pan fydd wedi'i gwblhau.

9 **Amserlen y Rhaglen Waith ar gyfer**

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal Adolygiad Sicrwydd Awdurdod Lleol. Fe'i cynhelir mewn perthynas â COVID. Fe'i cynhelir ar 7 Mehefin 2021. Caiff yr eitemau canlynol eu hychwanegu at y rhaglen waith:

- Adborth cychwynnol yn dilyn Ymweliad Sicrwydd AGC - cyfarfod 14 Gorffennaf 2021
- Adroddiad llawn ynghylch Ymweliad Sicrwydd AGC - cyfarfod mis Hydref 2021 o bosib

Hefyd i'w hychwanegu:

- Adborth o arolygiad y Gwasanaethau Gofal Cartref - cyfarfod mis Hydref 2021 o bosib.

Eitem 'Diweddariad ynghylch cynnydd canlyniadau cyllidebu' wedi'i chynnig ar gyfer rhaglen waith y dyfodol. Bydd y Cyfarwyddwr yn trafod yr hyn y gellir ei ddarparu eleni ag Aelod y Cabinet a Phenaethiaid Gwasanaethau a rhoi gwybod i'r panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm